

IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU

DYDD GWENER, 18 HYDREF 2019

Yn Cynghorydd Mackie(Cadeirydd)
bressenol: Cynghorwyr Ford a/ac Goddard

19 : DATGAN BUDDIANNAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiannau.

20 : CAIS AR GYFER AMRYWIO TRWYDDED SAFLE – CFELEVEN, HEOL Y GADEIRLAN

Ymgeiswyr: Jason Hamer wedi'i gynrychioli gan John Wallsgrove

Pobl Eraill â Diddordeb: Y Cyng. Iona Gordon, Geraint Anthony, Pauline Roberts

Y Cais

Derbyniwyd cais i gyflwyno Amrwyiad i Drwydded Safle gan Mr Jason Hamer ar gyfer CFEleven, 151 Heol y Gadeirlan, Caerdydd

Mae'r ymgeisydd wedi gwneud cais i amrywio'r drwydded fel a ganlyn:

- i) Cymeradwyo newidiadau i'r gosodiad i ychwanegu ystafell fechan ar y llawr daear fel rhan o'r safle trwyddedig a ddefnyddir fel ystafell frechwast yn y boreau ac ardal eistedd am weddill y dydd.
- ii) Addasu amod 2 er mwyn caniatáu defnyddio'r ardd gefn tan 10:00pm
- iii) Ychwanegu amodau fel a ganlyn:
 1. Ar achlysuron pan gynhelir gweithgareddau trwyddedadwy yn y safle ar ôl hanner nos, cyflogir o leiaf 2 oruchwylydd drws yr Asiantaeth Diwydiannau Diogelwch yn y safle o 9:00pm tan amser cau ac eithrio pan gytunir fel arall yn ysgrifenedig gyda Swyddog Trwyddedu'r Heddlu.
 2. Pan fo gornest focsio, gêm rygbi ryngwladol, cwpan rygbi'r byd neu gêm y chwe gwlad yn stadiwm Caerdydd, bydd y Goruchwylydd Drws Penodedig yn cwblhau asesiad risg ysgrifenedig sy'n dangos y rhesymeg dros gyflogi goruchwylwyr drws Asiantaeth Diwydiannau Diogelwch ai peidio.

Sylwadau'r Bobl Eraill â Diddordeb

Anerchodd y Cynghorydd Iona Gordon yr Is-bwyllgor ar ran preswylwyr fel yr Aelod ward lleol. Dywedodd y Cynghorydd Gordon fod yr adeilad yn gyn westy sydd wedi newid ac sydd bellach yn gweithredu fel tafarn. Bu nifer o geisiadau am amrwyiadau i'r drwydded. Yn y gwrandawriad blaenorol, penderfynodd yr Is-bwyllgor ganiatáu i'r defnydd o ardaloedd allanol ddod i ben am 9:00pm. Gofynnodd y Cynghorydd Gordon am beidio ag ildio'r amod hwnnw y tro hwn.

Anogwyd yr aelodau i ystyried yr effaith y mae defnyddio'r ardal allanol yn ei chael ar drigolion cyfagos, gan gynnwys sŵn ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae'r adeilad wedi'i leoli mewn ardal o Heol y Gadeirlan sy'n bennaf yn breswyl ei chymeriad ac mae angen amddiffyn y preswylwyr rhag sŵn ac aflonyddwch.

Anerchodd Pauline Roberts yr Is-bwyllgor. Dywedodd Ms Roberts fod Datganiad Polisi Trwyddedu'r awdurdod yn cefnogi sefyllfa'r preswylwyr i'r graddau y byddai ymestyn defnydd yr ardal allanol yng nghefn yr adeilad ymhellach yn groes i'r polisi. Dywedodd Ms Roberts eu bod, fel preswylwyr, yn byw gydag effaith sŵn. Wrth i gwsmeriaid yfed mae sŵn yn mynd yn uwch ac felly byddai ymestyn y defnydd a ganiateir ymhellach yn gwaethygu'r broblem. Cododd Ms Roberts bwynt hefyd ynglŷn â gwagio biniau poteli am 6:30am.

Dywedodd Mr Geraint Anthony fod ei eiddo â'i gefn i'r eiddo dan sylw. Mae ei bryderon yr un peth â'r pryderon a godwyd yn y 3 neu 4 cais diwethaf. Bob noswaith heulog mae ei deulu yn dioddef lefelau annerbyniol o sŵn. Byddai ymestyn y defnydd a ganiateir o'r ardal yn mynd yn groes i'r polisi ac ni fyddai'n dderbyniol mewn ardal breswyl.

Gofynnodd yr aelodau a yw'r preswylwyr wedi gwneud cwynion i Reoli Llygredd neu Drwyddedu ynghylch aflonyddu sŵn. Dywedodd Mr Anthony iddo gael sawl cwyn yn ystod yr haf fel y gwnaeth cymdogion eraill. Mae cymdogion eraill hefyd wedi cysylltu â rheolwyr yr adeilad ynghylch y mater hwn.

Sylwadau'r Ymgeisydd

Cyflwynodd Mr Wallsgrove y cais. Dywedwyd wrth yr aelodau fod y cais mewn 3 rhan ar ei hanfod.

Yn gyntaf ceisiodd yr amrywiad newid cynllun yr adeilad i gynnwys ystafell ychwanegol yn y cefn. Byddai hyn yn caniatáu ychwanegu 24 gorchudd ychwanegol. Ar hyn o bryd pan fydd yr ardaloedd allanol ar gau gofynnir i gwsmeriaid ddod y tu mewn. Felly mae cwsmeriaid yn gadael i fynd i eiddo eraill ar Heol y Gadeirlan. Awgrymwyd na fyddai unrhyw effaith negyddol ar yr amcanion trwyddedu trwy ganiatáu i'r rhan hon o'r cais. Efallai y bydd budd mewn gwirionedd oherwydd bod nifer y bobl sy'n gadael yn cael eu lleihau.

Mae ail ran y cais yn ceisio ehangu'r defnydd o'r ardal allanol yng nghefn yr adeilad gan 1 awr i 10:00pm. Mae ceisiadau blaenorol wedi ceisio am 11:00pm ac wedi cael eu gwrthod. Gofynnwyd i'r aelodau ystyried amser cau o 10:00pm, o bosibl ar ddiwrnodau penodol o'r wythnos. Er enghraifft, mae nosweithiau Gwener a Sadwrn ar Heol y Gadeirlan yn brysur gyda nifer cynyddol o ymwelwyr a lefelau uwch o sŵn amgylchol. Felly ni fyddai amser cau o 10:00pm yn cael unrhyw effaith andwyol.

Gofynnwyd i'r aelodau nodi na wnaed unrhyw sylwadau awdurdod cyfrifol ynghylch y cais. Roedd yn bwysig sicrhau cydbwysedd rhwng barn preswylwyr ac anghenion busnesau lleol.

Dywedodd Mr Wallsgrove fod nifer o Hysbysiadau Digwyddiad Dros Dro wedi'u cynnal yn yr adeilad. Caniatwyd defnyddio'r ardal allanol tan 11:00pm. Ni

dderbyniwyd unrhyw gŵyn i'r rheolwyr o ganlyniad i'r digwyddiadau hyn, o Drwyddedu nac Iechyd yr Amgylchedd.

Dyweddodd Mr Wallsgrove fod dwy gŵyn ddi-sail wedi dod i law. Roedd y cyntaf yn ymwneud â defnyddio'r ardal allanol ddydd Sadwrn 20 Gorffennaf 2019, pan nad oedd Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro yn digwydd. Mynychodd swyddogion Trwyddedu'r adeilad a gwyllo'r Teledu Cylch Cyfyng yn dangos nad oedd neb yn yr ardal allanol. Ni chymerwyd unrhyw gamau ac anfonwyd llythyr at yr ymgeiswyr yn cadarnhau na thorwyd unrhyw amod.

Roedd yr ail gŵyn yn ymwneud ag awgrym bod yr ystafell yng nghefn yr adeilad eisoes yn cael ei defnyddio. Cyflwynwyd ffotograffau a oedd yn dangos yr ystafell ym mlaen yr adeilad sydd wedi'i drwyddedu. Unwaith eto mynychodd swyddogion yr adeilad ac roeddent wedi'u bodloni.

Dyweddodd Mr Wallsgrove fod yr adeilad yn cael ei reoli'n dda, ei fod yn sefydliad da ac nad oedd yr awduron cyfrifol yn poeni. Fodd bynnag, cydnabuwyd pryderon trigolion lleol.

Roedd rhan olaf y cais yn ymwneud â darparu staff drws a gymeradwywyd gan yr Asiantaeth Diwydiannau Diogelwch pan fydd alcohol yn cael ei werthu y tu hwnt i hanner nos. Roedd hwn yn amod y cytunwyd arno gyda Heddlu De Cymru.

Dyweddodd Mr Wallsgrove fod y cais yn un cyfrifol a gwahoddodd yr Is-bwyllgor i'w gymeradwyo.

I grynhoi

Dyweddodd y Cynghorydd Gordon fod Mr Hamer wedi cyflwyno achos credadwy ond ei fod yn credu y dylid gwrthod y cais.

Pwysleisiodd Pauline Roberts y byddai'r cais yn cael effaith ar ansawdd ei bywyd. Nid oedd wedi gwneud cwyn ond roedd yn ymwybodol o'r sŵn.

Dyweddodd Geraint Anthony nad yw 9:00pm ar gyfer ardal allanol yn dderbyniol a bod 10:00pm yn waeth byth.

Dyweddodd Jason Hamer ei fod yn siarad yn rheolaidd â thrigolion. Mae'n agored iddynt gael ei rif a gallant gysylltu ar unrhyw adeg.

Dyweddodd Jon Wallsgrove fod gan bob adeilad arall yn yr ardal hyd at 11:00pm neu 11:30pm ar gyfer yr ardal allanol a Mr Hamer oedd yr un a oedd ag amser gwahanol. Byddai'r estyniad i 10:00pm yn sicrhau cydbwysedd. Nid yw'r penderfyniad yn un "y cwbl neu ddim", ac mae'r adeilad yn dawelach yn ystod yr wythnos. Mae dydd Gwener a dydd Sadwrn yn brysurach ac ni fyddai estyniad i 10:00pm yn effeithio ar lefel sŵn amgylchol. Byddai cynnwys yr ystafell ychwanegol o fudd i'r amcanion trwyddedu.

Dyweddodd Mr Wallsgrove y dylai'r Pwyllgor fod â hyder i ganiatáu'r cais.

PENDERFYNWYD: Bod yr Is-bwyllgor, ar ôl ystyried yr holl wybodaeth, ac yn unol â gofynion Deddf Trwyddedu 2003, Canllawiau Adran 182 a Datganiad Polisi

Trwyddedu'r Awdurdod Trwyddedu ei hun, YN CANIATÁU y drwydded safle yn amodol ar:

- (1) Bydd defnyddio'r ardal allanol y tu ôl i'r adeilad ar gyfer gweithgareddau trwyddedig yn dod i ben am 9:00pm o ddydd Sul i ddydd Iau a 10:00pm ar ddydd Gwener a dydd Sadwrn.

21 : CAIS AR GYFER AMRYWIO TRWYDDED SAFLE – PONTCANNA INN, HEOL Y GADEIRLAN

Ymgeiswyr: Steve Morris, Rheolwr Cyffredinol
Neil McCann, Joelson JD LLP

Awdurdod Cyfrifol: Sophie Kowproski, Llygredd - Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir

Y Cais

Derbyniwyd cais am Amrywiad Trwydded Safle gan The City Pub Group PLC mewn perthynas â'r Pontcanna Inn, 36 Heol y Gadeirlan, Pontcanna, Caerdydd.

Mae'r ymgeisydd wedi gwneud cais i amrywio'r drwydded safle fel a ganlyn:

- (i) Amrywio gosodiad y safle i ehangu'r ardal ar gyfer gweithgareddau trwyddedadwy i gynnwys y maes parcio.
- (ii) Os caiff ei gymeradwyo, i ychwanegu'r canlynol:

Caiff yr ardal llinellau gwyrdd ar gynllun y Drwydded Safle ond ei defnyddio ar gyfer yfed alcohol a gweithgareddau trwyddedadwy eraill ar ddiwrnodau pan gynhelir digwyddiadau chwaraeon mawr neu ddiwyddiadau preifat.

Ar ddechrau'r gwrandawriad, dywedwyd wrth yr Is-bwyllgor fod yr ymgeiswyr wedi cytuno i dderbyn yr amodau a awgrymwyd gan Heddlu De Cymru yn eu sylwadau ysgrifenedig. Felly byddai'r cais yn cael ei newid i adlewyrchu hyn a thynnwyd sylwadau'r Heddlu yn ôl.

Sylwadau'r Awdurdod Cyfrifol

Anerchodd Sophie Kowproski'r Is-bwyllgor. Rhoddwyd gwybod i aelodau fod Rheoli Llygredd yn gwrthwynebu'r cais am amrywiad yn seiliedig ar yr amcan trwyddedu o atal niwsans cyhoeddus. Roedd y swyddog yn pryderu pa mor agos oedd y cynllun arfaethedig i breswylfeydd a hefyd yr effaith ar yr agosrwydd ehangach.

Mynegwyd pryderon ynghylch defnyddio siaradwyr yn ystod digwyddiadau chwaraeon ar y teledu. Roedd potensial i fwy na 100 o bobl ddefnyddio'r ardal. Derbyniwyd cwynion o'r blaen ynghylch digwyddiadau tebyg.

Mynegwyd pryderon hefyd ynghylch amllder y digwyddiadau arfaethedig. Gall cyfyngu'r defnydd o'r ardal i 20 digwyddiad bob blwyddyn achosi problemau o hyd. Cyfyngwyd Hysbysiadau Digwyddiad Dros Dro i awr derfyn o 9:00pm ac awgrymodd Ms Kowproski y dylai hyn fod yn berthnasol o hyd. Dylid gwahardd defnyddio uwchseinyddion yn yr ardal hefyd.

Wrth ymateb i gwestiynau gan yr ymgeiswyr, cadarnhaodd Ms Kowproski fod dwy gŵyn wedi dod i law. Cyfeiriodd un gŵyn at sgrin fawr a siaradwyr yn yr adeilad, a'r llall yn ymwneud â defnydd cyffredinol yr adeilad.

Sylwadau'r Ymgeisydd

Cyflwynodd Mr Neil McCann y cais. Dywedwyd wrth yr aelodau, er bod yr ymgeiswyr wedi cytuno ar yr amodau y gofynnwyd amdanynt gan Heddlu De Cymru, byddent hefyd yn derbyn amod a fyddai'n mynnu mai dim ond os codir pabell fawr y gellir defnyddio'r ardal.

Rhoddodd Mr McCann drosolwg o'r adeilad a'r defnydd arfaethedig o ardal y maes parcio ar gyfer digwyddiadau chwaraeon mawr. Dywedwyd wrth yr aelodau bod y cais wedi'i ysgogi o ganlyniad i drafodaethau gyda Heddlu De Cymru. Roedd yr adeilad yn gweithredu o dan Hysbysiadau Digwyddiad Dros Dro a byddai ffurfioli'r trefniant trwy amrywiad i'r drwydded safle yn galluogi rheolaeth fwy cadarn ar y digwyddiadau hyn. Byddai'r amrywiad yn fuddiol i bob parti gan y byddai'n dileu'r baich gweinyddol ar yr ymgeiswyr, y Cyngor a Heddlu De Cymru.

Wrth ymateb i bwyntiau a godwyd ynghylch cwynion, nododd Mr McCann fod un gŵyn yn ymwneud â defnyddio'r ardal ardd flaen ac nad oedd yn berthnasol i'r cais hwn. Roedd yr ail gŵyn yn ymwneud â pharti priodas a gynhaliwyd yng nghefn yr adeilad ac o ganlyniad nid oedd unrhyw gynlluniau i gynnal y mathau hynny o ddigwyddiadau yn y dyfodol.

Dywedwyd wrth yr aelodau fod yr ymgeisydd wedi gobeithio dod i gytundeb â Rheoli Llygredd. Fodd bynnag, ni allent dderbyn awr derfyn o 9:00pm gan y byddai hyn yn atal lletya gemau gyda'r nos. Byddai'r uwchseinyddion yn wynebu i ffwrdd o breswylfeydd ac ni fyddai unrhyw sŵn yn mynd y tu hwnt i'r lefelau sŵn presennol. Byddai'r ymgeisydd yn hapus i gyfyngu nifer y digwyddiadau i 20.

Gofynnwyd i'r aelodau nodi nad oedd unrhyw breswylwyr wedi cyflwyno sylwadau. Fodd bynnag, trwy ganiatáu'r cais byddai'r Is-bwyllgor yn gosod rheolaethau cryfach ar y drwydded safle o ran rheoli'r digwyddiadau hyn.

I grynhoi

Dywedodd Sophie Koprowski y bydd y babel fawr yn helpu i liniaru pryderon sŵn ond y prif bryder yw'r sŵn gan bobl ychwanegol.

Dywedodd Niall McCann na dderbyniwyd unrhyw gwynion mewn perthynas â'r babel fawr a chytunwyd ar awgrymiadau'r Heddlu.

PENDERFYNWYD: Bod yr Is-bwyllgor, ar ôl ystyried yr holl wybodaeth, ac yn unol â gofynion Deddf Trwyddedu 2003, Canllawiau Adran 182 a Datganiad Polisi Trwyddedu'r Awdurdod Trwyddedu ei hun, YN CANIATÁU y drwydded safle yn amodol ar y canlynol:

- (1) Bod ardal y maes parcio cefn ond yn cael ei defnyddio ar gyfer gweithgaredd trwyddedig pan fydd pabell fawr wedi'i chodi;

- (2) Dim ond am hyd at 20 achlysur y flwyddyn y bydd ardal y maes parcio cefn yn cael ei ddefnyddio.

22 : EITEMAU BRYD (OS OES RHAI)

Daeth y cyfarfod i ben am 12.00 pm